

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 15/2/2016
Minutes of the meeting held on Monday evening 15/2/2016

Presennol / Present: Derek Owen (Cadeirydd / Chair), Elfed Jones, Jack Longman, David Livingstone, Carys Davies, Dei Owens, Julia Dobson

Cynghorwyr Sirol/ County Councillors: Cyng/Cllr Wil Hughes

Yn Bresennol / In Attendance: Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Eira Parry (Cyfieithu/Translation), Aelodau'r gymuned / Community members.

Ymddiheuriadau / Apologies: Tony Hughes, Rose Griffiths, Cyng/Cllr Aled M Jones, Cyng/Cllr Richard Jones

1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol. Nodwyd y byddai cynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Mechell yn ymuno a ni ar gyfer trafodaeth ar yr eitem olaf ar yr agenda ynghyd ag Elfed Williams, Mark Connolly a John Dunlop, datblygwyr y prosiect Fferm Arae Haul.

Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance. It was noted that representatives from Mechell Community Council would be joining the meeting for discussion on the last agenda item along with Elfed Williams, Mark Connolly and John Dunlop, the developers of the Solar Farm project.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Cyng Wil Hughes – Cynllunio yn gyffredinol a'r drafodaeth ar y fferm arae haul.
Cllr Wil Hughes – *planning in general and the discussion on the solar farm.*

3 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Jack Longman eiliwyd gan Carys Davies.
The minutes were accepted as a true record. Proposed by Jack Longman, seconded by Carys Davies.

4 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

4.1 Sedd Wag / Empty Seat

Cytuno dderbyn argymhellion yr is bwyllgor i benodi Mr Brian Potter yn aelod o'r Cyngor. Pwysleiswyd bod y tri oedd wedi ymgeisio o safon uchel ond teimlo mai Mr Potter oedd a'r mwyaf i gynnig ar hyn o bryd. Cytuno gofyn i'r ddau ymgeisiwr arall ddod i gyfarfodydd y Cyngor i gael dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei drafod a sut mae'r Cyngor yn gweithredu.

Agreed to accept the recommendations of the sub-committee and to appoint Mr Brian Potter a member of the Council. It was emphasised that all three candidates had been of a high standard but it was felt that Mr Potter would be able to offer the Council more at this present moment in time. Agreed to invite the other two to the Council meetings so that they gain an understanding of what is discussed and how the Council operates.

4.2 10-12 Stryd Fawr / 10-12 High Street

Mae pethau yn dechrau symud o safbwynt cyfreithiol i drosglwyddo'r adeilad. Cafwyd pris am wneud y gwaith gan un cwmni hyd yma ond nid yw wedi prisio gwaith i'r fflat. Gadarnhawyd mai un cartref i deulu oedd y Cyngor am ei gynnig yn hytrach nac pedair uned annibynnol i unigolion. Y clerch i gadarnhau hyn gyda'r adeiladwyr er mwyn cael prisio'r gwaith yn ei gyfarwydd.

The purchase of the building is now progressing in terms of transferring the property. A quote has been received by one company to date however they have not included any work to the flat. It was confirmed that the Council wished to offer one family home rather than four independent units for individuals. The clerk to confirm this with the builders to get completed quotes.

4.3 Llwybr Carrog Footpath

Mae'r prosiect yn symud yn ei flaen. Mae'n bosib bydd gan y Cyngor Sir peth arian i gwblhau gwaith angenrheidiol i wella diogelwch y llwybrau sy'n arwain at y bont.

The project is progressing. It is possible that the County Council will have funding available to complete the necessary safety improvements to the footpaths leading up to the bridge.

4.4 Mynwent Y Rhyd Cemetery

Bydd y broblem yn y fynwent wedi ei ddatrus erbyn mis Ebrill gyda lwc. Mae swyddogion Horizon a'r Cyngor Sir wedi bod ar y safle gyda'r tir feddianwr a Cadeirydd y Cyngor ac wedi cytuno ar y ffordd ymlaen.

The issues at the cemetery should be resolved by April with some luck. Horizon's officers along with County Council officers, the farmer and the Council Chair have met on site and agreed on a way forward.

4.5 Ymgynghoriad Magnox Consultation

Cytuno i'r clerc gwblhau y ffurflen ar ran y Cyngor gan nodi pwysigrwydd cefnogaeth cymunedol.

Agreed for the clerk to respond on behalf of the Council noting the importance of community support.

5 Wylfa Newydd

5.1 Pryderon ynglyn a'r gwaith cyfredol / Issues regarding current works

Deallwyd bod rhywun yn rhywle wedi rhoi stop ar gerbydau Wylfa Newydd yn dod i fewn i'r pentref a defnyddio'r gwasanaethau yno – caffis, siopau. Mae'r Cyngor yn gefnogol o'r gweithwyr yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y pentref ac chefnogi busnesau lleol. Mae'n bwysig bod Wylfa Newydd yn cefnogi adnoddau sydd eisioes ar gael yn y gymuned a bod y gweithwyr yn integreiddio a thrigolion lleol o'r cychwyn.

Nid oes ymateb swyddogol o'r prif Swyddfa hyd yma ynglyn a chwynion am lorïau yn gor yrru a heb ddiogelu eu llwyth.

It was understood that someone has banned Wylfa Newydd vehicles from coming into the village and using local facilities – cafes. Shops. The Council is supportive of the workers using local facilities and supporting local businesses. It is important that Wylfa Newydd support the facilities already available and that workers integrate with the community from the start.

There is no official response as yet to the complaints made regarding lorries speeding and not having their loads covered.

5.2 Crynodeb o Gyfarfod 27/1/2016 Summary of Meeting

Cafwyd grynodeb gan y cadeirydd o'r cyfarfod positif gyda prif swyddogion Horizon. Nodwyd nifer o bwyntiau ac edrychwyd ymlaen i gydweithio mewn partneriaeth gyda'r cwmni a'r cynghorau eraill. Bydd y Bartneriaeth yn cyfarfod pob 2-3 mis.

The chair gave an overview of the positive meeting held with Horizon's senior officers. A number of points were raised and all looked forward to working together in partnership with the company and other councils. The partnership will meet every 2-3 months.

5.3 Ymgynghoriad / Consultation

Dosbarthwyd copïau o'r llyfryn ymgynghori i'r aelodau oedd yn bresennol Mae'n hanfodol bod y ffurflenni yn cael eu cwblhau a'u dychwelyd. Bydd ymateb y Cyngor yn cael ei drafod yn llawn yng ngyfarfod Mawrth.

Copies of the consultation booklet were distributed to those present. It is important that the forms are completed and returned. The Council's response will be discussed in detail at the March meeting.

5.4 **Cyfarfod Grid Cenedlaethol / National Grid Meeting**

Cafwyd grynodedb gan Julia Dobson o'r cyfarfod a drefnwyd gan Albert Owen gyda'r Grid Cenedlaethol. Deallwyd bod cefnogaeth brwd yn parhau i gladdu'r ceblau yn hytrach na'u rhoi ar draws y tir ar beilonau. Teimlwyd nad oedd y Grid Cenedlaethol yn ymateb i gwestiynau a phryderon y cymunedau. Diolchwyd i Julia Dobson am yr adroddiad.

Julia Dobson gave an overview of the meeting arranged by Albert Owen with the National Grid. It was understood that support was in favour of underground cables rather than overhead on pylons. It was felt that the National Grid were not responding to communities' concerns and questions. Julia Dobson was thanked for her report.

6 Cyllid / Finance

Cafwyd crynodeb o'r cyfarfod diwethaf gan nodi bod y cofnodion llawn i'w gweld drwy gysylltu a'r clerc. A summary was given of the last meeting noting that the full minutes are to be seen by contacting the clerk.

7 Cynllunio / Planning

7.1 Penderfyniadau / Decisions

Ni fu diweddariad gan y Cyngor Sir am benderfyniadau ddiweddar. There was no update from the County Council on recent planning decisions.

7.2 Ceisiadau / Applications

Roedd pedair cais i'w trafod: /There were four applications to discuss:

- 1) The Moorings, Cemaes (20C195B) – pryder - effaith ar oleuni i gymdogion (Vikings) / concerns - the effect on light to immediate neighbours (Vikings)
- 2) Ty Capel Moriah, Llanbadrig (20C275B/SCR) – cefnogi / support
- 3) Farm Cottage, Cemaes (20C224D/ENF) – gadael i ddoethineb y swyddogion cynllunio / allow for the wisdom of the planning officers
- 4) Wylfa Newydd (38C310A/SCO) – wedi ei anfon drwy ebost i'r holl aelodau, unrhyw un a sylw i gysylltu a'r clerc cyn gynted a phosib / has been emailed to all members, anyone with any observations to contact the clerk as soon as possible.

8 Gohebiaeth / Correspondence

8.1 Horizon – copiau o lythyrau wedi eu hanfon at drigolion lleol / copies of letters sent out to local residents

8.2 Grid Cenedlaethol – gwybodaeth am arolwg ecolegol a gwaith arall fydd yn cymryd le yn fuan. National Grid – information regarding the forthcoming ecological survey amongst other activities.

9 Ymgynghoriad – Bil Llywodraeth Lleol (Cymru) / Consultation – Local Government (Wales) Bill

Mae gwybopdaeth eisioes wedi ei anfon allan i'r aelodau drwy ebost, ynghyd ag ymateb Un Llais Cymru i'r ddogfen ymgynghori. Yn dilyn trafodaeth, cytuno dylai Julia Dobson ymateb ar ran y Cyngor yn cefnogi nifer o bwyntiau a wnaed gan Un Llais Cymru mewn ymateb i'r ddogfen.

Information has already been sent out to all members via email, along with One Voice Wales' response to the consultation document. Following a discussion, it was agreed that Julia Dobson respond on behalf of the Council supporting many of the points made by One Voice Wales in response to the document.

10 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

10.1 Nodwyd bydd Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor yr Harbwr yn cymryd lle nos Lun 14/3/2016. It was noted that the Harbour Committee's AGM will take place on Monday 14/3/2016.

10.2 Nodwyd bod goleuadau dros dro yn creu pryder ar y lon tuag at Tregle. Y cadeirydd i wneud ymholiadau.

It was noted that temporary lights are causing concern on the road towards Tregel. The chair to make enquiries.

- 10.3 Safleoedd Sipsiwn - Mae ymgynghoriad ar hyn o bryd i ddatblygu gwahanol safleoedd ar yr ynys.
Travellers Sites - There is an ongoing consultation in to developing various sites on the island.
- 10.4 Cyfyngu cyflymder yn y pentref – ar ol trafodaeth gofynnwyd i'r clerwr wneud ymholiadau i gael lleihau cyflymder o 30 i 20 milltir yr awr yn y stryd fawr (o'r cylchfan hyd gorsaf gwylwyr y glannau).

Reducing speed in the village – following some discussion, the clerk was asked to make enquiries to reduce the speed limit from 30 to 20 mph in the high street (from the roundabout to the coastguard station).

11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Bydd y cyfarfod llawn nesaf nos Lun Mawrth 21 2016.

The next full council meeting will be on Monday evening March 21 2016.

12 Fferm Arae Haul / Solar Farm

Croesawyd Mary Hughes (Cadeirydd Cyngor Cymuned Mechell) i'r cyfarfod ynghyd ag Elfed Williams (ymhynghorydd cynllunio), Mark Connolly a John Dunlop (datblygwyr). Diolchwyd iddynt am ddod i'r cyfarfod gan bwysleisio mai gwranddo yn unig fydd y Cyngor, a bydd cyfle i drafod unwaith bydd y cais cynllunio wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir.

Diolchwyd i'r Cyngor am y gwahoddiad i ddod i'r cyfarfod i roi cyflwyniad byr am y prosiect. Cadarnhawyd byddai'r cais cynllunio yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym mis Mawrth. Cadarnhawyd hefyd bod y prosiect yn ei gyfanrwydd wedi ei leoli yn ardal Llanbadrig.

Deallwyd bod y prosiect wedi bod yn y broses gael ei ddatblygu dros gyfnod o ddwy flynedd, a bod ffiniau'r prosiect yn ogystal a'i enw wedi newid drod gyfnod o amser. Cyfeirir at y prosiect erbyn hyn fel Prosiect Arae Haul Gogledd Mon. Yn ystod y cyfnod datblygu, mae partneriaeth ag tîrffeddiawnyr a chysylltiad i'r grid cenedlaethol wedi ei sicrhau yn gyfreithiol.

Bydd y prosiect yn cynnig fferm arae haul 50mw dros 200 acer o dir. Bydd 40% o'r tir wedi ei orchuddio a phaneli, gyda cyfle i ddefaid bori oddi tanynt. Nodwyd bod y tir dan sylw yn dir amaethyddol gwael. Hyd y prosiect fydd 30 mlynedd, a gan nad oes newid i'r tir (dim concriid na lefelu), bydd y tir yn cael ei adael yn ei ffurf gwreiddiol ar ddiwedd y prosiect.

Dangoswyd nifer o lluniau o wahanol safleoedd yn dangos safle y datblygiad arfaethiedig, ond nid oedd y datblygiad wedi ei ddangos arnynt – yn hytrach cadarnhawyd ble mae tyrbinau gwynt Rhyd y Groes. I'r rheini sydd yn adnabod yr ardal, bydd llawer iawn mwy o'r datblygiad i'w weld na'r hyn oedd yn cael ei grybwyll.

Nodwyd bod y prosiect yn sensitive iawn i gymdogion agos ac i'r gymuned gyfan. Nodwyd bod y datblygwyr wedi cyfarfod a nifer o gymdogion yn barod, a bod nifer eraill i gwrdd a nhw dros yr wythnosau nesaf fel rhan o'r broses.

Cadarnhawyd y byddai coed yn cael eu plannu ble bod angen er mwyn lleihau'r effaith weledol i drigolion cyfagos. Byddai datblygu'r safle yn cymryd 6 mis o waith adeiladu, ac mae cynllun traffig eisioes wedi ei ddatblygu, gan nodi y byddai unrhyw ddifrod i'r lonydd yn cael ei drwsio fel rhan o'r prosiect.

Pwysleiswyd drwy gydol y cyflwyniad y gwahaniaeth rhwng tyrbinau gwynt a phaneli solar, a hefyd yr ansicrwydd a fyddai Wylfa Newydd yn cael ei adeiladu. Nodwyd bod Ynys Mon yn cael ei hyrwyddo fel Ynys Ynni ac mai dyma pam oedd y datblygwyr wedi dewis y lleoliad.

Fe ofynnwyd pa fesuriadau oedd yn cael eu cymryd i lleihau effaith ar gymdogion agosaf y prosiect – roedd y lluniau 'cyn ac ar ol' yn dangos coed a chloddiâu ond dim ond ar ol saith mlynedd o dyfiant. Deallwyd y byddai'r

paneli yn cael eu gosod i didlyn y tirlun fel nad ydynt yn effeithio ar y gorwel ac felly yn lleihau'r effaith gweledol. Bydd y safle wedi ei amgylchynu gan ffens 2m o uchder yn unol a'r ffens da byw yn yr ardal gyfagos. Bydd y safle yn cael ei fonitro gan CCTV, ac fe gadarnhawyd na fyddai goleuadau ar y safle.

Fe ofynnwyd i'r datblygwyr pa bryd oedd y cymorthdaliadau llywodraethol yn dod i ben. Cadarnhawyd byddai'r prosiect yn hyfyw heb unrhyw daliadau o'r fath. Nodwyd nad oedd cyllideb y prosiect yn rhan o'r broses gynllunio.

Teimlai'r aelodau mai dim ond dau gwmni oedd yn elwa o'r prosiect sef y datblygwyr a'r tiffeddianwyr, a hynnu ar gost i gymuned Llanbadrig a Gogledd Mon. Cafwyd datganiad gan y datblygywr mai er lles y cyhoedd oedd y datblygiad ac nid er lles eu hunain, y tir feddianwyr, y Cyngor Sir na'r gymuned.

Deallwyd er nad oedd arian wedi ei glustnodi i'r gymuned lleol byddai Cyngor Mon yn elwa (drwy dderbyn treth busnes) o £200,000 y flwyddyn dros fywyd y prosiect. Nodwyd y byddai gan y datblygiad fwy o gefnogaeth cymunedol petai cronfa budd cymunedol yn cael ei sefydlu ar gyfer yr ardal lleol.

Cynnigwyd y byddai'n syniad i'r tir feddianwyr dalu 25% i gronfa cymunedol er budd ardal Llanbadrig.

Fe ofynnwyd os oedd y si bod rhai cymdogion wedi cael cynnig £100,000 i beidio a gwrthwynebu'r cais – cafwyd ymateb pendant na fyddai y fath gynnig yn cael ei wneud ac y byddai yn effeithio ar y cais cynllunio.

Cynnigwyd y byddai cynnal cyfarfod cyhoeddus unwaith y bydd y cais cynllunio wedi ei gyflwyno er mwyn cael barn y gymuned ar y fath brosiect.

Diolchwyd i'r gwesteion am ddod i'r cyfarfod a chytuno i anfon copi o'r cyflwyniad ymlaen i'r clerwr er gwybodaeth.

Mary Hughes (Chair, Mechell Community Council) was welcomed to the meeting along with Elfed Williams (planning consultant), Mark Connolly and John Dunlop (developers). They were thanked for attending the meeting, and emphasis was given that members would tonight be listening only. There will be an opportunity for discussion at a later date once the planning application has been submitted to the County Council.

The Council were thanked for the invitation to attend the meeting to give a short presentation on the project. It was confirmed that the planning application was to be submitted to the County Council in March. It was also confirmed that the project in its entirety is located within the Llanbadrig Community boundary.

It was understood that the project had been in the process of development for the last two years and that project boundaries as well as the name had evolved over time. The project is now referred to as the North Anglesey Solar Project. During the development stage, a partnership with landowners and connection to the national grid have been established and secured legally.

The project will offer a 50mw solar farm over 200 acres of land. 40% of the land will be covered by panels, with the opportunity for sheep grazing underneath. It was stated that the land in question was of low agricultural quality.

A number of photos were shown of the proposed site, but the development was not shown – rather, the location of the Rhyd y Groes wind turbines were confirmed. According to those who know the area well, there will be much more of the solar farm visible than what was being suggested.

It was noted that the development is a sensitive matter to close neighbours and the community on a whole. It was noted that the developers have already met with some neighbours and will seek to meet with others during the coming weeks as part of the process.

It was confirmed that trees would be planted where necessary to reduce the visible impact for local residents. The development of the site would take approx. 6 months of construction work and a traffic management plan has already been developed, noting that any damage to the roads is guaranteed to be addressed as part of the project.

It was emphasised throughout the presentation the differences between turbines and solar panels, and also the uncertainty regarding the building of Wylfa Newydd. It was noted that Anglesey is promoted as the Energy Island and that is why the developers have chosen the area.

It was asked what measures would be in place to mitigate the effect of the development on those living nearest – the 'before and after' photos showed trees and hedges after seven years of growth. It was understood that the panels be installed in line with the land contour in order to minimise effect on the horizon.

The site will be secured by a 2m high stock fence similar to that already in use in the area. The site will be monitored by CCTV, and it was confirmed there would be no lighting on site.

The developers were asked when the government subsidies were coming to an end. The project's viability was confirmed without such payments. It was noted that the project's finances were not part of the planning process.

The members felt that only two organisations were benefitting from the project – the developers and the landowners, and that at a cost to Llanbadrig and North Anglesey communities. The developer stated that the project was for the benefit of the wider community and not for themselves, the landowners, the County Council or the Community.

It was understood that although no funding was earmarked for the local community, the County Council would benefit from Business rates of £200,000 per annum for the duration of the project. It was noted that the project would gain more community support should a community fund be established for the benefit of the local area.

It was suggested that the landowners contribute 25% to a community fund for the benefit of the Llanbadrig area.

It was asked whether the rumour that some neighbours had been offered £100,000 to not oppose the planning application – a definite negative response stating that such an offer, should it be made it would affect the planning application

It was proposed that a public meeting be held once a planning application had been submitted to the County Council in order to gain public view on such a project

The guests were thanked for attending the meeting and for agreeing to send a copy of the presentation to the clerk for information.

Bu'r cyfarfod orffen am 21.15 / The meeting closed at 21.15.